

CBAC Lefel 3

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Uned 4)



# Cynnwys

Tasgau a Chynlluniau Marcio	Tudalen
<b>UNED 4:</b>	
Ysgogiadau	4
Tasg	5
Cynllun marcio	6
Mapio	15
Taflen Farciau'r Ganolfan	16



**LEFEL 3 TYSTYSGRIF A DIPLOMA MEWN  
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL:  
EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL  
(ASESIAD DI-ARHOLIAD MEWNOL)**

**UNED 4: DEALL SUT MAE CYFLYRAU CYFFREDIN YN  
EFFEITHIO AR Y CORFF DYNOL**

**AMSER: 15 AWR**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR  
BYDD GENNYCH CHI GYFANSWM O 15 AWR I GWBLHAU'R DASG HON.**

Mae gofyn i chi ysgrifennu erthygl a llunio ffeithlun ar gyflyrau heintus a ffisiolegol penodol ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i'ch erthygl ymwneud â'r cyflwr ffisiolegol yn ysgogiad 1 ac mae'n rhaid i'ch ffeithlun fod yn gysylltiedig â'r haint yn ysgogiad 2.

Dylech chi dreulio 15 awr ar y dasg hon.

Y nifer mwyaf o eiriau ar gyfer y dasg hon yw 3,000 (gan gynnwys y ffeithlun).

Gallwch chi ddefnyddio'r adnoddau canlynol wrth gwblhau'r dasg hon:

- meddalwedd TGCh
- nodiadau dosbarth
- ysgogiadau.

**Caniateir i chi ddefnyddio'r rhyngrwyd wrth gwblhau'r dasg hon.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae'n bwysig eich bod chi'n gweithio'n annibynnol ac yn sicrhau mai eich gwaith chi yn unig, heb gymorth, yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu. Bydd angen i chi a'ch athro lofnodi datganiad mai eich gwaith chi yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Cewch eich cynghori i wirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn fanwl ac yn gywir.

## Ysgogiad 1: Cyflwr ffisiolegol – Diabetes Math 2

### Nifer y bobl â Diabetes yn cynyddu i bron 200,000 yng Nghymru yn 2019

Mae nifer y bobl sydd wedi cael diagnosis o Ddiabetes yng Nghymru wedi cynyddu i bron 200,000.

Cynyddodd y nifer o 191,590 i 194,693 ers y llynedd.

Dywedodd Diabetes UK Cymru fod Diabetes ar 7.4% o'r boblogaeth yng Nghymru – y ganran uchaf yn y DU. Cyfartaledd y DU yw 6.8%.

Amcangyfrifir bod tua 61,000 o bobl yng Nghymru yn byw â diabetes Math 2 ond heb gael diagnosis ohono, sy'n golygu bod Diabetes ar fwy na chwarter miliwn (255,781) o bobl yng Nghymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dweud bod tua 60% o oedolion yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew. Er nad pwysau gormodol sy'n achosi pob achos o ddiabetes Math 2, dyma'r ffactor risg unigol mwyaf o ran datblygu'r cyflwr. Gall oedran, hanes y teulu ac ethnigrwydd hefyd gyfrannu at risg unigolyn. Gellid atal neu ohirio llawer o achosion o ddiabetes Math 2 drwy fwyta'n iach, bod yn fwy gweithgar, a chynnal pwysau iach. Dywedodd Diabetes UK Cymru y gall nodi arwyddion cynnar diabetes newid bywydau pobl.

### **Ffynhonnell**

[Diabetes UK Cymru](#)

## Ysgogiad 2: Cyflwr heintus – Twbercwlosis (TB)

### Achosion o TB: Trigolion yn cael cynnig gwasanaeth sgrinio yn Llwynhendy, Caerfyrddin

Ym mis Mai 2019, cafodd achos o dwbercwlosis ei gysylltu â marwolaeth un person. Mae'r haint wedi effeithio ar 29 o bobl ers 2010 a nodwyd bod 80 o bobl eraill wedi dod i gysylltiad ag achosion wedi'u cadarnhau. Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru y gallai fod mwy o achosion na'r hyn oedd wedi'i nodi.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi anfon llythyrau at y bobl a ddaeth i gysylltiad ag achosion wedi'u cadarnhau yn gofyn iddyn nhw ddod i gael eu sgrinio. Gall hyn arwain at brofion pellach a thriniaeth os oes angen.

Dywedodd Dr Brendan Mason, o Iechyd Cyhoeddus Cymru, mai sgrinio cymunedol oedd y "ffordd orau o reoli'r achosion hyn". Dywedodd fod yr achosion hyn o dwbercwlosis hefyd yn cyd-fynd â newid mewn strategaethau iechyd byd-eang i ganolbwyntio ar gael gwared ar y clefyd yn llwyr erbyn 2035.

### **Ffynhonnell**

[Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019](#)

#### Tasg Uned 4

Mae gofyn i chi ysgrifennu erthygl a llunio ffeithlun ar gyflyrau heintus a ffisiolegol penodol ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i'r erthygl ymwneud â'r cyflwr ffisiolegol yn ysgogiad 1 ac mae'n rhaid i'ch ffeithlun fod yn gysylltiedig â'r haint yn ysgogiad 2.

Dylech wneud y canlynol yn eich erthygl:

#### Gan gyfeirio at ysgogiad 1

(a) Esboniwch achosion ac effeithiau posibl y cyflwr y cyfeirir ato yn yr ysgogiad. Rhaid i'ch ateb gyfeirio at y canlynol:

- achosion posibl y cyflwr
- arwyddion a symptomau
- effeithiau tymor byr ar y corff dynol
- effeithiau tymor hir ar y corff dynol
- effaith ar fywyd bob dydd.

[22 Marc]

#### Gan gyfeirio at ysgogiad 1

(b) Disgrifiwch y mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflwr y cyfeirir ato yn yr ysgogiad.

[10 Marc]

#### Gan gyfeirio at ysgogiad 1

(c) Aseswch y math o ofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflwr y cyfeirir ato yn yr ysgogiad. Dylai eich ymateb gyfeirio at fodolau perthnasol o iechyd a llesiant.

[18 Marc]

#### Gan gyfeirio at ysgogiad 2

(ch) Lluniwch ffeithlun sy'n amlinellu eich dealltwriaeth chi o'r haint yn ysgogiad 2.

Rhaid i'ch ffeithlun gynnwys cyfeiriad at:

- y math o haint
- sut mae'r haint yn cael ei achosi
- y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint gan gynnwys sut mae'n mynd i mewn i'r corff
- unrhyw niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad i'r haint.

[10 marc]

**CYFANSWM Y MARCIAU: [60 marc]**

## Cynllun Marcio Uned 4 ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae disgrifydd y band yn disgrifio lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodi, gallwch gymhwyso'r cynllun marcio. Mae dau gam i'r broses hon.

#### Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

#### Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

#### Safoni mewnol

Os oes mwy nag un athro/athrawes mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy wefan ddiogel CBAC ar ddiwrnod y canlyniadau.

## UNED 4 (Diploma yn unig)

### Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol

(a)	<p>Gan gyfeirio at ysgogiad 1, esboniwch achosion ac effeithiau posibl y cyflwr y cyfeirir ato yn yr ysgogiad. Rhaid i'ch ateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• achosion posibl y cyflwr</li> <li>• arwyddion a symptomau</li> <li>• effeithiau tymor byr ar y corff dynol</li> <li>• effeithiau tymor hir ar y corff dynol</li> <li>• effaith ar fywyd bob dydd.</li> </ul> <p style="text-align: right;">[22 marc]</p>
<b>Band</b>	AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol
5	<p style="text-align: center;"><b>18-22 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi esboniad gwych sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth fanwl a thrylwyr o achosion posibl y cyflwr</li> <li>• dealltwriaeth hyderus o effeithiau'r cyflwr ar y corff gan gynnwys arwyddion a symptomau, effeithiau tymor byr a thymor hir ar y corff dynol a'r effaith ar fywyd bob dydd.</li> </ul>
4	<p style="text-align: center;"><b>14-17 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi esboniad da iawn sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o achosion posibl y cyflwr</li> <li>• dealltwriaeth gadarn o effeithiau'r cyflwr ar y corff gan gynnwys arwyddion a symptomau, effeithiau tymor byr a thymor hir ar y corff dynol a'r effaith ar fywyd bob dydd.</li> </ul>
3	<p style="text-align: center;"><b>10-13 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi esboniad da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth dda o achosion posibl y cyflwr</li> <li>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o effeithiau'r cyflwr ar y corff gan gynnwys arwyddion a symptomau, effeithiau tymor byr a thymor hir ar y corff dynol a'r effaith ar fywyd bob dydd.</li> </ul>
2	<p style="text-align: center;"><b>6-9 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi esboniad sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• peth gwybodaeth a dealltwriaeth o achosion posibl y cyflwr</li> <li>• peth dealltwriaeth o effeithiau'r cyflwr ar y corff gan gynnwys arwyddion a symptomau, effeithiau tymor byr a thymor hir ar y corff dynol a'r effaith ar fywyd bob dydd.</li> </ul>
1	<p style="text-align: center;"><b>1-5 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi esboniad cyfyngedig sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o achosion posibl y cyflwr</li> <li>• fawr ddim dealltwriaeth o effeithiau'r cyflwr ar y corff gan gynnwys effeithiau tymor byr a thymor hir ar y corff dynol a'r effaith ar fywyd bob dydd.</li> </ul>
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p style="text-align: center;">Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>

**Rhaid** i atebion gyfeirio at yr ysgogiad ar **Ddiabetes Math 2** a gall gyfeirio at:

**Achosion posibl cyflwr Diabetes Math 2 :**

- Mae diabetes math 2 yn datblygu pan mae'r corff yn datblygu ymwrthedd i inswlin
- Mae diabetes math 2 yn glefyd *anrhosglwyddadwy*: clefyd nad yw'n cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol o un unigolyn i'r llall
- Gall diabetes math 2 gael ei achosi gan nifer o ffactorau:
  - mynd yn hŷn
  - ethnigrwydd
  - hanes teulu
  - ffordd o fyw eisteddog
  - gordewdra
  - deiet gwael
- Mae diabetes math 2 yn fwy tebygol os yw aelod o'r teulu â'r cyflwr.

**Arwyddion a symptomau cyflwr diabetes Math 2:**

- teimlo'n sychedig iawn
- troethi'n amlach nag arfer, yn enwedig yn y nos
- teimlo'n flinedig iawn
- colli pwysau a cholli swmp cyhyrau
- cosi o amgylch ardal cesail y forddwyd (*groin*), neu gyfnodau aml o'r llindag
- trychiadau (*cuts*) neu glwyfau sy'n gwella'n araf
- golwg aneglur.

**Effeithiau tymor byr posibl cyflwr diabetes Math 2::**

- Lefelau glwcos y gwaed isel (hypoglycemia), sy'n arwain at y canlynol:
  - blinder
  - gwendid
  - dryswch
  - cyfradd pwls wedi'i chodi.
- Lefel uchel o getonau yn y gwaed (ketosis), sy'n arwain at y canlynol:
  - chwydu
  - dadhydradu
  - anymwybyddiaeth/coma.
- Lefelau glwcos y gwaed uchel (hyperglycaemia), sy'n arwain at y canlynol:
  - cyfog
  - dadhydradu
  - dryswch
  - twymyn
  - anymwybyddiaeth/coma.

**Effeithiau tymor hir posibl cyflwr diabetes Math 2:**

- problemau golwg, dallineb
- heintiau ar y traed a'r croen sy'n gallu achosi poen a chosi ac os yw'n digwydd am gyfnod maith, gall arwain at drychiadau (*amputation*)
- problemau gyda phwysedd gwaed a cholesterol, sy'n arwain at drawiad ar y galon, strôc, a phroblemau eraill
- niwed i'r nerfau sy'n achosi poen, llosgi, cosi (*tingling*), a cholli teimlad
- problemau wrth dreulio bwyd sy'n arwain at deimlo'n wan neu'n wynebu anawsterau wrth weithio'r corff



- siwgr gwaed uchel a phroblemau eraill, gan arwain at niwed i'r arenau. Efallai y bydd angen dialysis neu drawsblaniad aren
- mwy o risg o ddementia
- mwy o risg o glefydau esgyrn, gan gynnwys osteoporosis
- mwy o risg o glefyd y galon oherwydd siwgr gwaed isel (hypoglycaemia).

**Effaith cyflwr diabetes Math 2 ar fywyd bob dydd:**

- mae yna ymrwymiad/baich amser o reoli diabetes Math 2 yn dda (rheoli glwcos y gwaed, sicrhau deiet iach a chael digon o ymarfer corff), cymryd meddyginiaeth yn union fel y disgrifir a rheoli sgil-ffeithiau tra'n gwneud gweithgareddau bywyd bob dydd
- gall fod goblygiadau o ran rhyngweithio cymdeithasol oherwydd diffyg gwybodaeth am y clefyd
- gall cyfleoedd cyflogaeth fod yn gyfyngedig, yn enwedig os yw swydd yn gofyn am waith shifft achos gallai hyn achosi anawsterau o ran rheoli inswlin
- gall fod goblygiadau o ran gyrru yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r cyflwr; efallai y bydd yn effeithio ar yswiriant cerbydau modur
- efallai y bydd angen cynllunio ychwanegol ar gyfer teithio a gwyliau e.e. i sicrhau bod cyflenwad digonol o feddyginiaeth ar gael a bod modd darparu ar gyfer anghenion dietegol
- effaith emosiynol
- effaith seicolegol.

<b>(b)</b>	<p>Gan gyfeirio at ysgogiad 1, disgrifiwch y mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflyrau y cyfeirir atynt yn yr ysgogiad.</p> <p style="text-align: right;"><b>[10 marc]</b></p>
<b>Band</b>	<p>AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.</p>
<b>4</b>	<p style="text-align: center;"><b>8-10 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi disgrifiad gwych sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfeirio'n gadarn at yr ysgogiad</li> <li>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflwr.</li> </ul>
<b>3</b>	<p style="text-align: center;"><b>6-7 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi disgrifiad gwych sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfeirio at yr ysgogiad</li> <li>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflwr.</li> </ul>
<b>2</b>	<p style="text-align: center;"><b>4-5 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi disgrifiad sylfaenol sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfeirio rhywfaint at yr ysgogiad</li> <li>• dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o'r mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflwr.</li> </ul>
<b>1</b>	<p style="text-align: center;"><b>1-3 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi disgrifiad cyfyngedig sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfeirio fawr ddim, os o gwbl, at yr ysgogiad</li> <li>• dangos fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o'r mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflwr.</li> </ul>
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p style="text-align: center;">Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>
	<p>Wrth gyfeirio at yr ysgogiad dylai'r atebion gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau, gofal a chymorth sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru ar gyfer unigolion sy'n byw â diabetes e.e. Sefydliadau'r trydydd sector – Diabetes UK Cymru, Grwpiau cefnogi diabetes lleol</li> <li>• gwybodaeth am fentrau cyfredol a strategaethau hybu iechyd sy'n canolbwyntio ar bwysau, bwyta'n iach a mwy o weithgarwch corfforol gyda'r nod o helpu i atal diabetes yng Nghymru e.e. Her Iechyd Cymru</li> <li>• dull person-ganolog tuag at bob gofal a chymorth ar gyfer unigolion sy'n byw â diabetes e.e cymryd risgiau mewn ffordd gadarnhaol</li> <li>• cefnogi unigolion i oresgyn rhwystrau i gefnogi iechyd a llesiant, i gynnwys model sy'n seiliedig ar gryfderau a gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a chefnogi unigolion sy'n byw â diabetes</li> <li>• strategaethau lleihau risgiau y dylai unigolion sy'n byw â diabetes eu dilyn:             <ul style="list-style-type: none"> <li>• lleihau pwysau'r corff</li> <li>• cadw at ddeiet</li> <li>• cynnal lefel gyson o siwgr yn y gwaed trwy ddefnyddio deiet/inswlin</li> <li>• cymryd rhan mewn mwy o weithgarwch corfforol</li> <li>• lleihau lefelau straen trwy ofalu am lesiant personol</li> <li>• sicrhau cyflenwad da o awyr iach.</li> </ul> </li> </ul>

(c)	<p>Gan gyfeirio at ysgogiad 1, aseswch y math o ofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflwr y cyfeirir ato yn yr ysgogiad.</p> <p>Dylai eich ymateb gyfeirio at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant [18 marc]</p>
<b>Band</b>	<p>AA3: <i>Dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, ystyried y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer, ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau.</i></p>
5	<p><b>17-18 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi asesiad gwych sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a thrylwyr o'r gofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflwr ffisiolegol y cyfeirir ato yn yr ysgogiad</li> <li>• barn resymegol a manwl mewn perthynas ag effeithiolrwydd, goblygiadau, pwysigrwydd a pherthnasedd eu hanghenion gofal a chymorth</li> <li>• cyfeiriad gwych at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant.</li> </ul>
4	<p><b>13-16 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi asesiad da iawn sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r gofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflyrau ffisiolegol y cyfeirir atynt yn yr ysgogiad</li> <li>• barn resymegol gan fwyaf mewn perthynas ag effeithiolrwydd, goblygiadau, pwysigrwydd a pherthnasedd eu hanghenion gofal a chymorth</li> <li>• cyfeiriad da at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant.</li> </ul>
3	<p><b>9-12 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi asesiad da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r gofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflyrau ffisiolegol y cyfeirir atynt yn yr ysgogiad</li> <li>• rhywfaint o farn resymegol mewn perthynas ag effeithiolrwydd, goblygiadau, pwysigrwydd a pherthnasedd eu hanghenion gofal a chymorth</li> <li>• cyfeiriad boddhaol at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant.</li> </ul>
2	<p><b>5-8 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi asesiad sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth glir ar y cyfan o'r gofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflyrau ffisiolegol y cyfeirir atynt yn yr ysgogiad</li> <li>• barn sylfaenol mewn perthynas ag effeithiolrwydd, goblygiadau, pwysigrwydd a pherthnasedd eu hanghenion gofal a chymorth</li> <li>• cyfeiriad sylfaenol at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant.</li> </ul>
1	<p><b>1-4 marc</b></p> <p>Mae'r erthygl yn rhoi asesiad cyfyngedig sy' dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• peth gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflyrau ffisiolegol y cyfeirir atynt yn yr ysgogiad</li> <li>• fawr ddim barn mewn perthynas ag effeithiolrwydd, goblygiadau, pwysigrwydd a pherthnasedd eu hanghenion gofal a chymorth</li> <li>• fawr ddim cyfeiriad at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant.</li> </ul>
	<p><b>0 marc</b></p> <p>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>

**Gan gyfeirio at yr ysgogiad, dylai atebion lunio barn ar anghenion gofal a chymorth unigolion, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â chyflwr Diabetes.**

**Unigolion sy'n byw â'r cyflwr:**

- cael diagnosis o Ddiabetes drwy brofion gwaed a throeth
- asesu anghenion gofal a chymorth er mwyn nodi ac asesu rhinweddau a chryfderau mewn canlyniadau llesiant personol a ddymunir
- monitro Diabetes drwy ymyrraeth, gofal, cefnogaeth a chyngor i wella iechyd a llesiant
- cefnogaeth â thasgau byw o ddydd i ddydd
- rhaglenni adsefydlu: Mae diabetes yn effeithio ar y corff mewn sawl ffordd. Mae'n creu cymhlethdodau sy'n gallu arwain at heriau. Gall rhaglenni adsefydlu ar gyfer diabetes helpu unigolion gyda'u symudedd, lleferydd a namau gwybyddol sy'n gysylltiedig â diabetes.


**Teulu, ffrindiau a chylch ehangach:**

- gwybodaeth ac addysg am y clefyd, yr effaith ar yr unigolyn sy'n byw â'r cyflwr a chyngor ar y ffordd orau o'u cefnogi nhw
- gofal seibiant: gall unigolion sydd â diabetes ddatblygu cymhlethdodau a bydd angen mwy o ofal arnynt. Gall hyn fod yn flinedig i'r gofalwr a'i roi dan straen.

Dylai atebion gyfeirio at fodlau perthnasol o iechyd a llesiant fel:

- **Model cymdeithasol:** awgrymu bod unigolion yn cael eu hallgáu gan rwystrau mewn cymdeithas, nid gan eu hiechyd, nam na'r hyn sy'n eu gwneud yn wahanol.
- **Model meddygol:** tybio bod afiechyd neu glefyd yn bodoli. Mae'n pwysleisio diagnosis clinigol ac ymyrraeth feddygol wrth drin clefyd neu ei symptomau.
- **Model bioseicogymdeithasol:** yn cynnwys rhyngweithiadau rhwng ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol i helpu i benderfynu pam y gallai unigolyn fod ag anhwylder.

(ch)	<p>Gan gyfeirio at ysgogiad 2, lluniwch ffeithlun sy'n amlinellu eich dealltwriaeth o'r haint yn yr ysgogiad.</p> <p>Rhaid i'ch ymateb gynnwys gyfeirio at y ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y math o haint</li> <li>• sut mae'r haint yn cael ei achosi</li> <li>• y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint gan gynnwys sut mae'n mynd i mewn i'r corff</li> <li>• unrhyw niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad i'r haint.</li> </ul> <p style="text-align: right;">[10 marc]</p>
<b>Band</b>	AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.
4	<p style="text-align: center;"><b>8-10 marc</b></p> <p>Mae'r ffeithlun yn rhoi amlinelliad gwych sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae'r haint yn cael ei achosi, y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint, sut mae'n mynd i mewn i'r corff, y math o haint a'r niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad o'r haint.</p>
3	<p style="text-align: center;"><b>6-7 marc</b></p> <p>Mae'r ffeithlun yn rhoi amlinelliad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae'r haint yn cael ei achosi, y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint, sut mae'n mynd i mewn i'r corff, y math o haint a'r niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad o'r haint.</p>
2	<p style="text-align: center;"><b>4-5 marc</b></p> <p>Mae'r ffeithlun yn rhoi amlinelliad sylfaenol sy'n dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r haint yn cael ei achosi, y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint, sut mae'n mynd i mewn i'r corff, y math o haint a'r niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad o'r haint.</p>
1	<p style="text-align: center;"><b>1-3 marc</b></p> <p>Mae'r ffeithlun yn rhoi amlinelliad cyfyngedig sy'n dangos fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r haint yn cael ei achosi, y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint, sut mae'n mynd i mewn i'r corff, y math o haint a'r niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad o'r haint.</p>
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p style="text-align: center;">Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>
	<p><b>Rhaid i'r atebion gyfeirio at yr haint Twbercwlosis (TB)</b></p> <p><b>Math o haint</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae TB yn haint systemig. Haint systemig yw haint sy'n cael ei achosi'n bennaf gan firysau neu facteria sy'n lledaenu drwy systemau'r corff. Weithiau, cyfeirir at haint bacteriol systemig fel sepsis; nid yw'n drosglwyddadwy, ond, fel arfer mae'r pathogenau sy'n achosi sepsis yn drosglwyddadwy.</li> </ul> <p><b>Sut mae heintiau yn cael eu hachosi, y cylch trosglwyddo ar gyfer heintiau a sut maent yn mynd i mewn i'r corff</b></p> <p><b>Mae'r cylch trosglwyddo ar gyfer heintiau</b> fel cadwyn sy'n cynnwys chwe dolen. Er mwyn creu clefyd, rhaid i bob dolen sy'n rhan o'r broses heintus fod yn bresennol mewn trefn resymegol. Bydd cael gwared ar un ddolen yn y gadwyn yn rheoli'r cylch heintio.</p>



- Mae **cyfrwng heintus** yn cyfeirio at y pathogenau sy'n achosi'r haint.
- Mae **cronfeydd** yn cyfeirio at y ffynhonnell, h.y. yr unigolyn â'r haint.
- Mae'r **porth ymadael** yn cyfeirio at y llwybr mae'r organeb heintus yn gallu ei ddefnyddio i ddianc o'r Gronfa.
- Mae'r **dull trosglwyddo (fector)** yn cyfeirio at y cysylltiad rhwng ffynhonnell yr haint (cronfa) a'r porth mynediad.
- Mae'r **porth mynediad** yn cyfeirio at y dull sy'n cael ei ddefnyddio gan y pathogenau i fynd i mewn i'r person (yr *organeb letyol*).
- Mae **organeb letyol agored i haint** yn cyfeirio at yr unigolyn mae'r haint yn cael ei drosglwyddo iddo.
  
- Math o facteriwm o'r enw mycobacteriwm twbercwlosis (*cyfrwng heintus*) sy'n achosi Twbercwlosis (TB). Mae'n cael ei drosglwyddo drwy ddefnyddio yn yr aer (*dull trosglwyddo*) pan fydd person sydd â chlefyd TB gweithredol yn ei ysgyfaint (*cronfa*) yn pesychu neu'n tisian (*porth ymadael*) a mae rhywun arall (*organeb letyol agored i haint*) yn mewnanadlu'r defnyddiau sy'n cael eu hallyrru, sy'n cynnwys bacteria TB (*porth mynediad*).

#### Niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad i'r haint

- Gellir gwella TB os yw'n cael ei drin â'r gwrthfotigau cywir
- Gall **twbercwlosis** heb ei drin **achosi niwed tymor hir** i sawl rhan o'r corff, gan gynnwys yr esgyrn, yr ymennydd, yr iau/afu, yr arenau a'r galon
- bydd yn effeithio ar y rhannau hyn yn ogystal â chymhlethdodau yn yr ysgyfaint. Pan fydd twbercwlosis yn ymledu i rannau eraill o'r corff, mae heintiau pellach yn gallu dod i gysylltiad â'r rhannau hyn ac yn andwyo'u gallu i weithio
- unwaith bydd twbercwlosis yn cyrraedd yr esgyrn, gall achosi niwed tymor hir i'r cymalau. Gall TB yn yr esgyrn niweidio'r asennau hefyd
- Mae TB hefyd yn cael effaith negyddol ar weithrediad organau. Er enghraifft, mae iau/afu neu aren yr effeithir arni yn colli'r gallu gorau posibl i hidlo sylweddau gwastraff o'r gwaed.
- pan fydd TB yn heintio'r galon ddynol, mae gallu'r organ i gynorthwyo cylchrediad y gwaed cael ei beryglu'n sylweddol
- os yw TB yn treiddio i'r ymennydd, gall achosi llid yr ymennydd: Gall y cyflwr hwn arwain at farwolaeth oherwydd y chwydd yn y pilenni sydd o amgylch yr ymennydd a'r golofn asgwrn cefn.

**Mapio tasgau Uned 4 Asesiad Di-arholiad i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu**

Tasg	Cynnwys y fanyleb					Dyraniad marciau			
	Adran					Cyfanswm Marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
	4.1	4.2	4.3	4.4	4.5				
(a)		(a)	(a)			22	0	22	0
(b)					(b)	10	10	0	0
(c)				(c)		18	0	0	18
(ch)	(ch)					10	10	0	0
<b>Cyfanswm</b>						<b>60</b>	<b>20</b>	<b>22</b>	<b>18</b>



**Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal  
Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**Asesiad di-arholiad: Tasg Uned 4**

Enw'r Ymgeisydd:

Rhif yr Ymgeisydd:

Enw'r Ganolfan:

Rhif y Ganolfan:

**Asesiad di-arholiad: Tasg Uned 4**

Tasg	Marc Uchaf	Marc y Ganolfan	Marc y Cymedrolwr	Sylwadau'r Ganolfan
(a)	22			
(b)	10			
(c)	18			
(ch)	10			
<b>Cyfanswm</b>	<b>60</b>			



### Asesiad di-arholiad: Sylwadau

I'w gwblhau gan yr unigolyn sy'n goruchwyllo'r asesiad di-arholiad.

Nodwch ble cafodd cymorth y tu hwnt i arweiniad goruchwyllo arferol ei roi a sut mae hyn wedi effeithio ar y marciau a gafodd eu dyfarnu.

Rhestrwch y ffynonellau gwybodaeth a gafodd eu defnyddio wrth ddatblygu'r asesiad di-arholiad.

### HYSBYSIAD I YMGEISWYR

Rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gyflwyno i'w asesu fod wedi ei wneud gennych chi.

Os byddwch chi wedi copïo gwaith rhywun arall, wedi caniatáu i ymgeisydd arall gopïo eich gwaith chi, neu wedi twyllo mewn unrhyw ffordd arall, mae'n bosibl y cewch eich diarddel o'r cymhwyster dan sylw o leiaf.

#### DATGANIAD GAN YR ATHRO/ATHRAWES

Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gyflawni o dan amodau a nodwyd yn y fanyleb.

Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf yn fodlon, hyd eithaf fy ngallu, bod y gwaith wedi ei gyflawni gan yr ymgeisydd yn unig.

**Llofnod yr athro/athrawes:**

**Dyddiad:**

#### DATGANIAD GAN YR YMGEISYDD

Rwyf wedi darllen a deall yr **Hysbysiad i Ymgeiswyr** (uchod).

Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith atodedig heb gymorth, ac eithrio'r hyn mae fy athro wedi esbonio ei fod yn dderbyniol o fewn y fanyleb.

**Llofnod yr ymgeisydd:**

**Dyddiad:**